Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales
hefcw

# Adroddiad Rheoleiddiol Blynyddol CCAUC

## 2018/2019

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

www.hefcw.ac.uk
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd | This document is also available in English

# Cynnwys

**Rhagair** ........ 2
**Adran 1 – Cyflwyniad** ........ 3
**Adran 2 – Cynlluniau Mynediad a Ffioedd** ........ 5
**2.1 Cyflwyniad** ........ 5
**2.2 Cyflawni swyddogaethau yn ystod y cyfnod adrodd (2018/19)** ........ 5
**2.3 Canlyniadau gweithgareddau wrth gyflawni swyddogaethau** ........ 8
**2.4 Methu cydymffurfio â'r system reoleiddiol ac achosion o ymyrraeth** ........ 9
**2.5 Datblygu Prosesau Rheoleiddio** ........ 10
**Adran 3 – Ansawdd yr Addysg** ........ 11
**3.1 Cyflwyniad** ........ 11
**3.2 Cyflawni swyddogaethau yn ystod y cyfnod adrodd yn ôl** ........ 11
**3.3 Canlyniadau gweithgareddau wrth gyflawni swyddogaethau** ........ 13
**3.4 Methu cydymffurfio â'r system reoleiddiol ac achosion o ymyrraeth** ........ 14
**Adran 4 - Materion Ariannol Sefydliadau a Reoleiddir** ........ 15
**4.1 Cyflwyniad** ........ 15
**4.2 Cyflawni swyddogaethau yn 2018/19** ........ 15
**4.3 Canlyniadau gweithgareddau wrth gyflawni swyddogaethau** ........ 16
**4.4 Methu cydymffurfio â'r system reoleiddiol ac achosion o ymyrraeth** ........ 18
**Adran 5 – Datganiad Ymyrraeth** ........ 19
**Adran 6 – Datganiad Sicrwydd** ........ 20

## Rhagair

Mae’r ail adroddiad rheoleiddiol hwn yn rhoi sicrwydd ynghylch y modd yr ydym wedi cyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio, fel y nodwyd yn Neddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 (Deddf 2015), yn ystod blwyddyn academaidd 1 Awst 2018 hyd 31 Gorffennaf 2019. Mae’r cyfnod adrodd hwn yn trafod yr ail flwyddyn academaidd lle bu Deddf 2015 yn llwyr weithredol. Mae’r adroddiad wedi cael ei gymeradwyo gan ein Cyngor wedi i’n Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ein Pwyllgor Sicrwydd Ansawdd a’n Pwyllgor Rheoleiddio graffu arno. Bydd adroddiad 2019/20 yn manylu ar swyddogaethau rheoleiddiol yr ydym wedi’u cyflawni ers y flwyddyn academaidd y mae’r adroddiad hwn yn berthnasol iddi. Bydd yr adroddiad hwnnw’n cael ei gyflwyno ar 31 Mawrth 2021.

Fel y nodwyd yn ein hymateb i waith craffu ôl-ddeddfwriaethol Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd ar Ddeddf 2015, mae ein pwerau rheoleiddio o natur benodol ac wedi’u cyfyngu i agweddau penodol ar weithgarwch sefydliadau a reoleiddir. Gan hynny, ni allwn ond ymyrryd mewn materion sydd oddi mewn i gwmpas ein swyddogaethau rheoleiddio. Rydym yn croesawu adroddiad craffu’r Pwyllgor hwnnw ar Ddeddf 2015. Bydd argymhellion yr adroddiad yn cael eu hystyried wrth asesu ein swyddogaethau rheoleiddio yn barhaus, mewn perthynas â sefydliadau, NUS Wales a rhanddeiliaid eraill allweddol.

Mae’r adroddiad hwn yn trafod y flwyddyn gyntaf lle buom yn monitro effeithiolrwydd a chydymffurfiaeth â Chynlluniau Mynediad a Ffioedd. O ganlyniad i hyn, gwnaethom gomisiynu Ymlaen AU i amlygu arfer da ar gyfer datblygu fframweithiau gwerthuso. Yn amodol ar ymgynghoriad, rydym yn bwriadu cyhoeddi’r argymhellion a’r egwyddorion a nodir yn yr adroddiad fel arfer da i’w hystyried gan sefydliadau wrth wneud cais am Gynllun Mynediad a Ffioedd.

Wrth gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio, gwelsom fod angen gwelliannau yng ngoruchwyliaeth cyrff llywodraethu ar eu cyfrifoldebau rheoleiddio. Mewn ymateb i hyn, rydym wedi gweithredu mewn sawl ffordd i wella goruchwyliaeth cyrff llywodraethu ar, nid yn unig cyfrifoldebau rheoleiddio’r sefydliad a reoleiddir, ond yn ogystal, llywodraethu ehangach ar draws yr holl sector addysg uwch. Mae sefydliadau’n ymreolaethol ac nid yw ein swyddogaethau rheolaethol ond yn cynnwys goruchwyliaeth ar agweddau neilltuol ar weithgarwch sefydliadau a reoleiddir. Serch hynny, mae’n bwysig gweithio mewn partneriaeth â’r sector er mwyn gwella ymarfer. Rydym wedi ariannu adolygiad o drefniadau llywodraethu sefydliadau addysg uwch yng Nghymru ac yn paratoi rhaglen hyfforddi ar gyfer cyrff llywodraethu. Bydd y rhaglenni hyfforddi yn cael eu cyflwyno yn y dull priodol, ac ar adeg briodol, wrth inni reoli’r achosion o Covid 19 yn fyd-eang.

Bydd ein hadroddiad nesaf yn trafod y flwyddyn academaidd gyntaf yr effeithiwyd arni gan y clefyd. Mae’r sefyllfa’n ddigynsail yn y cyfnod diweddar, a bydd yn cael cryn effaith ar lawer o bobl o amgylch y byd. Wrth reoleiddio ein sefydliadau yn ystod y cyfnod hwn bydd yn rhaid inni ystyried hyn a rheoleiddio mewn modd cymesur. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau a rhanddeiliaid, fel NUS Cymru, fel nad yw ein gweithgarwch rheoleiddio yn atal sefydliadau rhag cefnogi eu myfyrwyr a’u staff, na chyrff sy’n dibynnu arnynt, yn ystod y cyfnod anodd hwn.



David Allen

**David Allen OBE, Cadeirydd**

## Adran 1 – Cyflwyniad

1.1 Cafodd Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 (Deddf 2015) gydsyniad brenhinol ar 12 Mawrth 2015, gan wella rôl Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) fel rheoleiddiwr. Daeth Deddf 2015, a ategir gan chwe chyfres o reoliadau, i rym yn raddol yn ystod cyfnod pontio, a ddaeth i ben pan ddaeth y Ddeddf i rym yn llawn ar 1 Awst 2017.

1.2 Mae Deddf 2015 yn pennu dyletswyddau penodol i CCAUC yn y meysydd canlynol:

- Terfynau ffioedd myfyrwyr,
- Gwella cyfleoedd cyfartal a hybu addysg uwch,
- Ansawdd addysg,
- Materion ariannol.

1.3 Mae'n ofynnol i sefydliadau a reoleiddir o dan y Ddeddf gydymffurfio â chyfarwyddiadau CCAUC yn y meysydd hyn. Caiff ymreolaeth sefydliadol ei datgan yn eglur yn y Ddeddf ac mae dyletswyddau a phwerau ymyrraeth CCAUC wedi'u cyfyngu i'r meysydd hynny sydd wedi'u pennu yn y Ddeddf yn unig, fel y'u nodir yn y paragraff uchod.

1.4 Nid yw pwerau CCAUC o dan Ddeddf Addysg Bellach ac 1992 o fewn cwmpas yr adroddiad hwn.

1.5 Un o'r disgwyliadau sy'n ofynnol gan CCAUC yw ei fod yn darparu i Weinidogion Cymru adroddiad blynyddol ar y modd y mae wedi cyflawni ei swyddogaethau yn unol â'r Ddeddf ar ddiwedd pob cyfnod adrodd. Yr adroddiad hwn yw'r ail i ni ei gyflwyno o dan y gofyniad hwn a bydd yn berthnasol i'r cyfnod adrodd yn ôl rhwng 1 Awst 2018 a 31 Gorffennaf 2019. Bydd swyddogaethau a gyflawnwyd ar ôl 31 Gorffennaf 2018, ond sy'n berthnasol i Gynlluniau Mynediad a Ffioedd blaenorol, yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau diweddarach.

1.6 Mae ein hadroddiad wedi'i lunio'n unol â'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru. Y disgwyliadau a nodir yn y cyfarwyddyd yw bod yr adroddiad blynyddol yn cynnwys y canlynol:

- Esboniad o'r modd y mae CCAUC wedi cyflawni ei swyddogaethau o dan:
  a) Adran 7 – cymeradwyo Cynlluniau Mynediad a Ffioedd,
  b) Adran 15 – monitro a gwerthuso cydymffurfiaeth ac effeithiolrwydd Cynlluniau Mynediad a Ffioedd,
  c) Adran 17 – asesu ansawdd yr addysg a ddarperir gan neu ar ran sefydliadau a reoleiddir, ac
  d) Adran 31 – monitro cydymffurfiaeth â'r Cod Rheoli Ariannol.

- Canlyniadau'r gweithgareddau y bu CCAUC yn ymgymryd â hwy wrth gyflawni'r swyddogaethau a restrir uchod. Dylai hyn gynnwys crynodeb o'r canlynol:
  a) ceisiadau Cynlluniau Mynediad a Ffioedd, eu cymeradwyo a'u gwrthod,
  b) cydymffurfiaeth y sector a reoleiddir â therfynau ffioedd a gofynion cyffredinol Cynlluniau Mynediad a Ffioedd sydd wedi'u cymeradwyo,
  c) Yr adolygiadau asesu ansawdd a gynhaliwyd a chanlyniadau'r adolygiadau hynny
  d) cydymffurfiaeth y sector a reoleiddir â'r Cod.

- Manylion am unrhyw fethiannau ar ran sefydliadau a reoleiddir i gydymffurfio â gofynion y system reoleiddiol ac achosion lle mae CCAUC wedi defnyddio ei swyddogaethau ymyrraeth o dan:
  a) Adran 11 – cyfarwyddiadau ad-dalu a chydymffurfiaeth,
  b) Adran 13 – cyfarwyddiadau mewn perthynas â methu cydymffurfio â gofynion cyffredinol Cynllun Mynediad a Ffioedd cymeradwy,
  c) Adran 19 – cyfarwyddiadau mewn perthynas ag ansawdd annigonol,
  d) Adran 20 – mesurau eraill mewn perthynas ag ansawdd annigonol,
  e) Adran 33 – cyfarwyddiadau mewn perthynas â methu cydymffurfio â'r Cod,
  f) Adran 34 – mesurau eraill mewn perthynas â methu cydymffurfio â'r Cod,
  g) Adran 37 – hysbysiad gwrthod cymeradwyo Cynllun Mynediad a Ffioedd newydd,
  h) Adran 38 – dyletswydd CCAUC i dynnu cymeradwyaeth Cynllun Mynediad a Ffioedd yn ôl os nad yw sefydliad a reoleiddir yn bodloni gofyniad adran 2(3)[1] mwyach, ac
  i) Adran 39 – pŵer CCAUC i dynnu cymeradwyaeth Cynllun Mynediad a Ffioedd yn ôl.

  gan gynnwys manylion y camau gweithredu y mae CCAUC wedi'u rhoi ar waith i ddatrys y methiant rheoleiddiol dan sylw a'r cynnydd a wnaed gan y sefydliad a reoleiddir wrth roi'r camau gweithredu angenrheidiol ar waith; a

- Datganiad sicrwydd sy'n cynnwys trosolwg o gydymffurfiaeth y sector a reoleiddir â'r system reoleiddiol sydd wedi'i datgan yn Neddf 2015 ac yn tynnu sylw at unrhyw feysydd sy'n peri pryder neu risg.

1.7 Mae'r adroddiad hwn wedi'i drefnu'n dair prif bennod er mwyn adrodd yn erbyn y meysydd hynny y mae Gweinidogion Cymru'n disgwyl inni eu trafod: Cynlluniau Mynediad a Ffioedd, ansawdd addysg a materion ariannol. Ceir Datganiad Sicrwydd hefyd ynghylch ein cydymffurfiaeth â'r system reoleiddio.

1.8 Drwy gydol yr adroddiad hwn byddwn yn cadarnhau a fu unrhyw fethiannau ar ran sefydliadau a reoleiddir i gydymffurfio â'r system reoleiddiol. Rydym wedi gweithredu mewn tair ffordd eang er mwyn gweld a fu unrhyw fethiannau o ran cydymffurfiaeth. Dyma'r tair ffordd o weithredu:

- Hunanadroddiadau gan sefydliadau a reoleiddir, bod hynny ar sail ad hoc neu drwy gylchoedd adrodd cynlluniedig,
- Cwynion a dderbynnir drwy system gwynion CCAUC sydd wedi'i sefydlu i wella ei rôl reoleiddio, a
- Gwaith monitro CCAUC, gan gynnwys monitro ffurfiol drwy ymgysylltu â sefydliadau a reoleiddir, trafodaethau â chyrff allanol eraill neu fonitro systemau data.

Esbonnir y ffyrdd hyn o weithredu os yw hynny'n berthnasol ac yn ôl yr angen drwy gydol yr adroddiad.

[1]Yn ôl Adran 2 (3) Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 mae'n rhaid i ymgeisydd Cynllun Mynediad a Ffioedd fod yn sefydliad yng Nghymru sy'n darparu addysg uwch, a rhaid iddo fod yn elusen.

# Adran 2 – Cynlluniau Mynediad a Ffioedd

## 2.1 Cyflwyniad

2.1.1 Mae’n ofynnol i bob sefydliad yng Nghymru sy’n dymuno cael ei reoleiddio gan CCAUC fod â Chynllun Mynediad a Ffioedd sydd wedi’i gymeradwyo gan CCAUC. Mae bod yn sefydliad a reoleiddir yn galluogi i fyfyrwyr cymwys sy’n astudio cyrsiau gradd amser llawn a TAR SAC (Statws Athro Cymwysedig) yn y sefydliad hwnnw gael cymorth myfyrwyr Cymru. Mae Cynlluniau Mynediad a Ffioedd yn nodi lefelau ffioedd sefydliadau ar gyfer darpariaeth cyrsiau gradd amser llawn a TAR SAC ar gyfer y flwyddyn academaidd mae’r cynllun yn berthnasol iddi, ac ymrwymiadau ar gyfer gwella cyfle cyfartal a hybu addysg uwch. Ar ôl cyflwyno Cynllun Mynediad a Ffioedd, mae'n rhaid i sefydliad dangos ei fod yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol a gysylltir â sefydliad a reoleiddir, sef y rhai a restrir isod:

- ei fod yn sefydliad,
- ei fod wedi'i leoli'n gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru,
- ei fod yn darparu addysg uwch,
- ei fod yn elusen,
- ei fod yn hyfyw yn ariannol,
- ei fod wedi'i reoli'n dda yn ariannol,
- ei fod yn darparu addysg o safon.

2.1.2. Yn yr adran hon o'r adroddiad, disgrifir y modd y mae CCAUC wedi cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â Chynlluniau Mynediad a Ffioedd hyd at 31 Gorffennaf 2019, gan gynnwys:

- Datblygu ei brosesau ar gyfer Cynlluniau Mynediad a Ffioedd cyn y cyfnod adrodd,
- Cymeradwyo neu wrthod Cynlluniau Mynediad a Ffioedd,
- Sicrhau cydymffurfiaeth â therfynau ffioedd perthnasol, a
- Monitro cydymffurfiaeth â Chynlluniau Mynediad a Ffioedd a gwerthuso eu heffeithiolrwydd.

## 2.2 Cyflawni swyddogaethau yn ystod y cyfnod adrodd (2018/19)

2.2.1 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn disgrifio sut yr aethom ati i gyflawni ein holl swyddogaethau yn gysylltiedig â Chynlluniau Mynediad a Ffioedd, wedi i'r Ddeddf ddod i rym. Mae hyn yn cynnwys cymeradwyo ac amrywio Cynlluniau Mynediad a Ffioedd, yno gystal â sicrhau cydymffurfiaeth â lefelau ffioedd a gofynion cyffredinol Cynlluniau Mynediad a Ffioedd.

<u>Monitro a Gwerthuso Cynlluniau Mynediad a Ffioedd 2017/18</u>

2.2.2 Yn Adroddiad Rheoleiddiol Blynyddol 2017/18 cadarnhawyd, gan nad oedd cylch cyntaf y Cynlluniau Mynediad a Ffioedd wedi'i gwblhau, y byddai canlyniadau'r gwaith o'u monitro a'u gwerthuso yn cael eu hadrodd yn yr adroddiad hwn.

2.2.3 Yn dilyn ein gwaith yn monitro a gwerthuso Cynlluniau Mynediad a Ffioedd 2017/18 gallwn gadarnhau bod yr holl sefydliadau a reoleiddir wedi cymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio â gofynion cyffredinol eu Cynlluniau Mynediad a Ffioedd perthynol ar gyfer 2017/18.

2.2.4 Wrth lunio'r asesiad hwn, rydym wedi dadansoddi adroddiadau a gyflwynwyd gan bob sefydliad a reoleiddir yn disgrifio'r modd y mae wedi cydymffurfio â lefelau ffioedd a gofynion cyffredinol y Cynllun Mynediad a Ffioedd, ac wedi gwerthuso effeithiolrwydd y cynllun hwnnw. Rydym hefyd wedi adolygu cwynion i CCAUC ynghylch sefydliadau, wedi dadansoddi data'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) ac wedi dadansoddi data'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr.

Meysydd i'w Gwella

2.2.5 Gan nad yw gweithrediad Cynlluniau Mynediad a Ffioedd ond megis dechrau o dan y Ddeddf, mae CCAUC a'r sefydliadau'n ymwybodol o'r angen i wella'n barhaus ar lefel sector ac ar lefel sefydliad. Serch hynny, rydym wedi nodi dau fater cyffredinol lle mae angen gwella:

- Dylai cyrff llywodraethu'r sefydliadau fod wedi cymryd rhan lawnach nag yr oeddent wedi gwneud yn y gwaith o fonitro cydymffurfiaeth â Chynlluniau Mynediad a Ffioedd, ac o werthuso effeithiolrwydd y cynlluniau hynny, er ein bod yn cydnabod bod sefydliadau eisoes yn cymryd camau i'r perwyl hwn.
- Roedd y dulliau a ddefnyddiodd sefydliadau i werthuso effeithiolrwydd eu Cynlluniau Mynediad a Ffioedd yn amrywio ac nid oedd ond yn ddyddiau cynnar yn natblygiad y dulliau hynny.

Rydym wedi cymryd camau i ymdrin â hyn, fel y disgrifir ym mharagraffau 2.3.8 a 2.3.9 isod.

2.2.6 Ni wnaeth dau sefydliad fuddsoddi yn y meysydd yr ymrwymwyd iddynt yn wreiddiol yng nghynlluniau 2017/18. Roedd ein gwaith monitro yn cadarnhau bod y sefydliadau wedi cymryd camau rhesymol i fuddsoddi mewn gweithgareddau er mwyn cyflawni'r amcanion yr ymrwymwyd iddynt yn wreiddiol. Mewn un achos, buddsoddodd sefydliad ar reoleiddir fwy mewn un categori a llai mewn categori arall. Er bod y buddsoddiad wedi'i gynnwys mewn categori ar wahân, roedd yr holl gyllid wedi'i neilltuo i'r un diben: cadw. Yn yr ail achos, dangosai gwaith monitro fod problem gydag un o'r systemau wedi arwain at lai o geisiadau i'r gronfa galedi nag a ragwelwyd. Mae'r sefydliad bellach wedi adolygu'r system honno a chynyddu'r arian sydd ar gael ar gyfer caledi. Rydym wedi gofyn i'r sefydliad adrodd ar effeithiolrwydd y newidiadau hyn yn rhan o'r adroddiad monitro a gwerthuso y bydd yn ei gyflwyno inni ar gyfer 2018/19

2.2.7 Yn rhan o'n hymagwedd at welliant parhaus, cyn cyflwyniadau nesaf Cynlluniau Mynediad a Ffioedd 2021/22, bydd CCAUC yn cyfarfod â phob sefydliad a reoleiddir i drafod eu cyflwyniad. Bydd y trafodaethau hyn sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn cynnwys herio sefydliadau i godi eu huchelgeisiau, i wella eu targedau a sicrhau canlyniadau mwy effeithiol.

2.2.8 Mae ein gwaith monitro wedi'i seilio ar drafodaethau â'n Pwyllgor Rheoleiddio, a gyfarfu am y tro cyntaf yn 2018/19, i gryfhau ein rôl reoleiddio. Bydd y Pwyllgor Rheoleiddio yn monitro cofnod o faterion a nodir drwy brosesau'r Cynllun Mynediad a Ffioedd er mwyn llywio'r cyngor y bydd yn ei roi i'r Cyngor.

Amrywio Cynlluniau Mynediad a Ffioedd 2019/20

2.2.9 Cyflwynodd pum sefydliad geisiadau i amrywio Cynlluniau Mynediad a Ffioedd 2019/20 yn ystod blwyddyn academaidd 2018/19. Roedd y ceisiadau'n ymwneud yn bennaf â diweddaru partneriaethau academaidd a oedd wedi cael eu datblygu

ers i gynlluniau 2019/20 gael eu cymeradwyo gan CCAUC. Cymeradwywyd pob cais amrywio.

Cymeradwyo Cynlluniau Mynediad a Ffioedd 2020/21

2.2.10 Cawsom ddeg cais am Gynlluniau Mynediad a Ffioedd ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21 yn ystod 2018/19. Anfonwyd y rhain o wyth prifysgol a dau goleg addysg bellach sydd wedi cael eu rheoleiddio ers gweithredu Deddf 2015.

2.2.11 Cwblhawyd ein dadansoddiad o geisiadau Cynllun Mynediad a Ffioedd 2020/21, yn erbyn meini prawf a gofynion a bennwyd ymlaen llaw, ym mis Mai 2019. Yn hwyr ym mis Mai, rhoddodd CCAUC adborth i'r ymgeiswyr yn erbyn y meini prawf asesu cyhoeddedig (gweler cylchlythyr W19/01HE, paragraff 151) i sicrhau gwelliannau a herio uchelgais, lle bo'n briodol. Yn ei adborth i'r ymgeiswyr, gofynnodd CCAUC iddynt gyflwyno ceisiadau diwygiedig yn seiliedig ar brosesau dadansoddi trwyadl CCAUC. Cynhaliwyd trafodaeth adeiladol â'r sefydliadau dros yr haf a chymeradwyodd CCAUC bob un o'r deg cynllun.

2.2.12 Sail y drafodaeth oedd sicrhau bod Cynlluniau Mynediad a Ffioedd yn dangos yn glir eu bod yn bodloni gofynion cyffredinol Cynlluniau Mynediad a Ffioedd, fel y'u nodir mewn deddfwriaeth, a dangos uchelgais priodol i wella cyfle cyfartal a hybu addysg uwch.

2.2.13 Drwy gymeradwyo’r Cynlluniau Mynediad a Ffioedd, roeddem yn sicr bod y sefydliadau a reoleiddir ar gyfer 2020/21:

- yn bodloni'r diffiniad o sefydliad
- wedi’u lleoli yng Nghymru,
- yn darparu addysg uwch,
- yn elusennau,
- yn hyfyw yn ariannol,
- yn cael eu rheoli’n dda yn ariannol,
- yn darparu addysg uwch o safon,
- yn bwriadu codi lefelau ffioedd oddi mewn i’r uchafswm a ganiateir ar gyfer ffioedd yn y rheoliadau, ac
- wedi ymrwymo i wella cyfle cyfartal a hybu addysg uwch.

2.2.14 Roedd yn ofynnol i sefydliadau gyhoeddi, ar eu gwefannau, o fewn pythefnos i dderbyn cymeradwyaeth CCAUC, adrannau penodol o’r cynlluniau ac eithrio’r wybodaeth reoleiddiol a ddarparwyd i CCAUC yn gyfrinachol.

Cydymffurfio â lefelau ffioedd

2.2.15 Ni chaiff sefydliadau a reoleiddir ond codi lefelau ffi a nodir mewn Cynlluniau Mynediad a Ffioedd a gymeradwywyd gan CCAUC ar gyfer darpariaeth cyrsiau gradd amser llawn a TAR SAC. Ar ôl i Gynlluniau Mynediad a Ffioedd gael eu cymeradwyo rydym yn rhannu manylion y lefelau ffioedd cymeradwy gyda’r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr. Mae lefelau ffioedd yn amrywio.

2.2.16 Mae CCAUC wedi monitro'r lefelau ffioedd ar gyfer darpariaeth cyrsiau gradd amser llawn a TAR SAC a nodwyd yng nghynlluniau mynediad a ffioedd 2018/19 drwy ddadansoddi data’r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr a’r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch, cwynion a gafwyd a thrafodaethau â sefydliadau a reoleiddir.

2.2.17 Yn 2018/19, adroddodd un sefydliad wrthym ei fod wedi codi'r tâl anghywir gan nifer fach o fyfyrwyr a oedd yn dechrau Blwyddyn Astudio Dramor yn rhan o gwrs pedwar blwyddyn, gan godi tâl am Flwyddyn mewn Diwydiant, sydd yn uwch. Rhoddodd y sefydliad ad-daliad i'r holl fyfyrwyr yr effeithiwyd arnynt gan hyn a diwygiodd ei weithdrefnau er mwyn cyfleu'r gwahaniaeth rhwng y ddwy ffi yn gliriach, fel na fyddai hynny'n digwydd eto yn y dyfodol.

## 2.3 Canlyniadau gweithgareddau wrth gyflawni swyddogaethau

2.3.1 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn datgan y canlyniadau o fod wedi cyflawni swyddogaethau rheoleiddiol fel maent yn berthnasol i Gynlluniau Mynediad a Ffioedd. Mae'r adran hon yn trafod canlyniadau cymeradwyo Cynlluniau Mynediad a Ffioedd a'n gwaith i fonitro cydymffurfiaeth a lefelau ffioedd a gofynion cyffredinol Cynlluniau Mynediad a Ffioedd.

Canlyniadau cymeradwyo Cynlluniau Mynediad a Ffioedd

2.3.2 Mae'r holl Gynlluniau Mynediad a Ffioedd cymeradwy wedi cynnwys grwpiau sydd wedi'u datgan fel rhai a dangynrychiolir mewn addysg uwch. Bydd sefydliadau'n nodi gwahanol grwpiau fel grwpiau wedi'u tangynrychioli yn ôl eu cenhadaeth a'u diben, a mae'r grwpiau a restrir isod yn enghreifftiau o'r grwpiau a gefnogir drwy'r buddsoddiad cyfle cyfartal yr ymrwymir iddo mewn Cynlluniau Mynediad a Ffioedd:

- pobl o bob oed sy'n byw yn ardaloedd Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a arferai gael ei gweithredu gan Lywodraeth Cymru,
- pobl o bob oedran sy'n byw yng nghwintel isaf yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru,
- pobl o bob oedran sy'n byw yn ardaloedd cyfranogiad isel UK POLAR3,
- pobl ifanc sydd wedi profi'r system ofal,
- pobl o bob oed â chyfrifoldebau gofalu,
- pobl o bob oed â nodweddion gwarchodedig,
- pobl o bob oed o gefndir incwm isel, a
- phobl o bob oed sy'n dymuno astudio addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg.

2.3.3 Drwy gymeradwyo Cynlluniau Mynediad a Ffioedd, ymrwymodd sefydliadau a reoleiddir i neilltuo cyfran o incwm ffioedd dysgu i'r dibenion canlynol:

- hybu a diogelu mynediad teg i addysg uwch, gan gynnwys adnabod unigolion o gefndiroedd difreintiedig sydd â'r potensial mwyaf,
- denu a chadw myfyrwyr a darpar fyfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir, gan gynnwys myfyrwyr o gefndiroedd llai breintiedig, myfyrwyr ag anableddau a myfyrwyr o grwpiau o leiafrifoedd ethnig,
- gwella dyheadau addysgol a datblygu sgiliau sy'n paratoi myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir ar gyfer astudio addysg uwch,
- cefnogi a chynyddu cyfradd cadw a chwblhau myfyrwyr, yn enwedig y rhai o ardaloedd cyfranogiad isel, plant sy'n derbyn gofal, unigolion sy'n gadael gofal a gofalwyr,
- gwella profiad myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir o addysg uwch, gan gynnwys gweithgareddau i hybu profiad rhyngwladol,

- darparu gwybodaeth i fyfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir cyn ac yn ystod eu cyrsiau,
- darparu cefnogaeth academaidd a lles o ansawdd uchel i fyfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir,
- cefnogi myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir i symud ymlaen i gyflogaeth neu astudiaethau pellach,
- sicrhau ymgysylltu mwy effeithiol â chyrff preifat, cyhoeddus a gwirfoddol a chymunedau yng Nghymru,
- gwella ansawdd y dysgu a’r addysgu, o ran ansawdd y profiad i fyfyrwyr,
- cryfhau cyflogadwyedd graddedigion Cymru,
- hybu addysg uwch yng Nghymru yn fwy effeithiol yn rhyngwladol,
- gwella’r ddarpariaeth o addysg uwch gynaliadwy, a
- codi ymwybyddiaeth o werth addysg uwch ymhlith darpar ddysgwyr.

Canlyniadau monitro cydymffurfiaeth â lefelau ffioedd

2.3.4 Fel y nodwyd ym mharagraff 2.2.17, rydym yn ymwybodol bod un sefydliad a reoleiddir wedi codi ffioedd gan grŵp bach o fyfyrwyr a oedd yn uwch na'r rhai a nodwyd yng nghynllun mynediad a ffioedd cytunedig 2018/19. Cafodd y myfyrwyr dan sylw ad-daliad gan y sefydliad, ac mae newidiadau wedi cael eu cyflwyno i atal hyn rhag digwydd yn y dyfodol. Gan hynny, ni fu'n rhaid inni gymryd unrhyw gamau pellach.

2.3.5 Yn 2018/19, ni chawsom unrhyw gwynion ynghylch Cydymffurfio â lefelau ffioedd.

Canlyniadau monitro cydymffurfiaeth â gofynion cyffredinol Cynlluniau Mynediad a Ffioedd

2.3.6 Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw achos lle nad yw sefydliad a reoleiddir wedi cydymffurfio â gofynion cyffredinol Cynllun Mynediad a Ffioedd cytunedig 2018/19.

2.3.7 Yn 2018/19, ni chawsom unrhyw gwynion ynghylch cydymffurfio â gofynion cyffredinol Cynlluniau Mynediad a Ffioedd.

2.3.8 Rydym wedi atgoffa cyrff llywodraethu ynghylch eu cyfrifoldebau dros Gynlluniau Mynediad a Ffioedd yn ein proses Asesu Risg Sefydliadol a hefyd wrth gymeradwyo Cynlluniau Mynediad a Ffioedd y sefydliadau ar gyfer 2020/21. Byddwn hefyd yn ariannu rhaglen hyfforddi llywodraethwyr a fydd yn rhoi sylw i rôl llywodraethwyr wrth gymeradwyo a monitro Cynlluniau Mynediad a Ffioedd. Bwriedir cynnal yr hyfforddiant hwn yn nhymor y gwanwyn 2020. Bydd adroddiad diweddar a ariannwyd gan CCAUC ar drefniadau llywodraethu sefydliadau addysg uwch yng Nghymru hefyd yn cryfhau cyfrifoldeb cyrff llywodraethu, ynghyd â Siarter ategol, y mae sefydliadau addysg uwch wedi'i chymeradwyo, gyda golwg ar alluogi llywodraethwyr i fod ar y blaen o ran llywodraethu corfforaethol da.

2.3.9 Ein cam cyntaf i wella effeithiolrwydd Cynlluniau Mynediad a Ffioedd fu comisiynu Ymlaen AU i adolygu'r fframweithiau gwerthuso a ddefnyddir gan sefydliadau a chynnig argymhellion er mwyn datblygu dulliau effeithiol o werthuso Cynlluniau Mynediad a Ffioedd yn y dyfodol. Cyflwynodd Ymlaen AU ei adroddiad inni ym mis Ionawr 2020. Rydym yn ymgynghori ar gyhoeddi hyn fel gwybodaeth a chyngor i’r cyrff llywodraethu ei ystyried wrth werthuso Cynlluniau Mynediad a Ffioedd yn y dyfodol. Mae gwerthuso effeithiol yn allweddol er mwyn gwella cyfle cyfartal a

hybu addysg uwch, a byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar hyn yn ein gwaith monitro yn y blynyddoedd nesaf.

## 2.4 Methu cydymffurfio â'r system reoleiddiol ac achosion o ymyrraeth

2.4.1 Nid oes unrhyw sefydliad a reoleiddir wedi methu cydymffurfio â'r gofynion rheoleiddio cysylltiedig â Chynllun Mynediad a Ffioedd. Gan hynny, nid oes unrhyw achosion o ymyrraeth i adrodd amdanynt.

## 2.5 Datblygu Prosesau Rheoleiddio

Pwyllgorau

2.5.1 Yn 2018/19, cyfarfu ein Pwyllgor Rheoleiddio am y tro cyntaf i gynghori ynghylch gweithredu cyfrifoldebau rheoleiddio CCAUC o dan Ddeddf 2015. Mae'r Pwyllgor yn ategu'r gwaith a oruchwylir eisoes gan y Pwyllgor Asesu Ansawdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Datblygu cyfarwyddyd ar gyfer ceisiadau Cynlluniau Mynediad a Ffioedd 2020/21

2.5.2 Yn sail ar gyfer drafftio cyfarwyddyd Cynlluniau Mynediad a Ffioedd 2020/21, cynhaliodd CCAUC gyfarfodydd â Llywodraeth Cymru ac, ar wahân, â sefydliadau cynrychioliadol, gan gynnwys Prifysgolion Cymru, Colegau Cymru ac NUS Cymru.

2.5.3 Ym mis Tachwedd 2018, cynhaliodd CCAUC seminar ymgynghori ar gyfer sefydliadau a reoleiddir. Yn y seminar, darparwyd gwybodaeth i'r sefydliadau a reoleiddir ynghylch y canlynol:

- Monitro a gwerthuso Cynlluniau Mynediad a Ffioedd,
- Adborth CCAUC ynghylch proses Cynlluniau Mynediad a Ffioedd 2019/20,
- Dynodiad a threfniadau partneriaeth,
- Yr adolygiad gan Ymlaen AU o Gynlluniau Mynediad a Ffioedd blaenorol, a gomisiynwyd gan CCAUC,
- Rôl y Pwyllgor Rheoleiddio,
- Proses amrywio'r Cynllun Mynediad a Ffioedd,
- Datblygiadau a newidiadau i'r cyfarwyddyd a'r llinell amser ar gyfer Cynlluniau Mynediad a Ffioedd 2020/21.

2.5.4 Cyhoeddodd CCAUC gyfarwyddyd Cynllun Mynediad a Ffioedd 2020/21 yng nghylchlythyr W19/01HE (Chwefror 2019). Seiliwyd cyfarwyddyd CCAUC ar adolygiad o dair blynedd cyntaf y Cynlluniau Mynediad a Ffioedd gan Ymlaen AU.

# Adran 3 – Ansawdd yr Addysg

## 3.1 Cyflwyniad

3.1.1 O dan Ddeddf 2015, mae'n ofynnol i CCAUC asesu neu wneud trefniadau ar gyfer asesu ansawdd yr addysg a ddarperir yng Nghymru gan, neu ar ran, bob sefydliad a reoleiddir. Mae Deddf 2015 yn rhoi pwerau i CCAUC weithredu ynghylch darpariaeth sy'n annigonol, neu'n debygol o ddatblygu i fod yn annigonol, gyda digonolrwydd yn cael ei ddiffinio fel diwallu anghenion rhesymol y rhai sy'n derbyn yr addysg neu'n dilyn y cwrs.

3.1.2 Efallai y bydd CCAUC yn cyhoeddi neu'n cymeradwyo cyfarwyddyd ynghylch gwella neu gynnal ansawdd yr addysg a ddarperir gan, neu ar ran, sefydliadau a reoleiddir, ac ynghylch meini prawf ar gyfer asesu ansawdd. Cyn cyhoeddi neu gymeradwyo cyfarwyddyd o'r fath, bydd yn rhaid i CCAUC ymgynghori â chorff llywodraethu pob sefydliad a reoleiddir ac unrhyw unigolion eraill a dybir yn briodol ym marn CCAUC. Roedd yn ofynnol hefyd i CCAUC sefydlu Pwyllgor Asesu Ansawdd (PAA) i gynghori ynghylch ei swyddogaethau cysylltiedig ag ansawdd o dan Ddeddf 2015. Mae ein PAA wedi rhoi cyngor i'r Cyngor ar faterion sydd wedi'u datgan yn yr adroddiad hwn sy'n berthnasol i ansawdd.

3.1.3 Yn yr adran hon o'r adroddiad disgrifir y modd yr aethom ati i gyflawni ein swyddogaethau ansawdd dros y cyfnod adrodd, hyd 31 Gorffennaf 2019, yn ogystal â chanlyniadau'r swyddogaethau hynny, o ran penderfynu a yw sefydliadau a reoleiddir wedi cydymffurfio â'r system reoleiddiol.

## 3.2 Cyflawni swyddogaethau yn ystod y cyfnod adrodd yn ôl

3.2.1 Yn yr adran hon, disgrifir y modd yr aethom ati i gyflawni ein swyddogaethau ansawdd yn ystod blwyddyn academaidd 2018/19.

Adolygiadau allanol

3.2.2 Rydym yn cyflawni'r swyddogaethau sydd gennym yn gysylltiedig ag ansawdd drwy Fframwaith Asesu Ansawdd Cymru. Mae hyn yn cynnwys gofyniad i sefydliadau a reoleiddir [2] gomisiynu adolygiad sicrwydd ansawdd allanol gan gorff ar Gofrestr Sicrwydd Ansawdd Ewrop ar gyfer Addysg Uwch. Fel y gwnaed yn 2017/18, comisiynwyd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (ASA) Addysg Uwch gan Brifysgolion Cymru i gynnal yr adolygiadau sicrhau a gwella ansawdd allanol er mwyn bodloni gofynion y Fframwaith Asesu Ansawdd.[3] Diben yr adolygiadau hyn yw sicrhau bod safonau ansawdd yn bodloni'r gofynion sylfaenol ac, yn sgil hynny, sicrhau budd y cyhoedd.

Ymweliadau teirblynyddol

3.2.3 Yn rhan o gyfrifoldebau CCAUC o dan y Fframwaith, bydd CCAUC yn cynnal ymweliad adolygu bob tair blynedd o bob sefydliad a reoleiddir, ac yn adrodd ar ei

[2]Gall cyrff eraill, fel Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) gynnal adolygiad neu arolygiad o sefydliadau addysg bellach (SABau) a gaiff hefyd eu rheoleiddio gan CCAUC.

[3]Nid yw'r SABau a reoleiddir yng Nghymru wedi penderfynu comisiynu adolygiad gan gorff ar y Gofrestr Sicrhau Ansawdd Ewropeaidd eto. Ni chafodd unrhyw SABau eu hadolygu yn ystod y cyfnod adrodd.

ganfyddiadau. Mae hyn yn canolbwyntio ar y datganiadau sicrwydd ansawdd blynyddol sy'n cael eu llofnodi gan y corff llywodraethu. Bydd pob sefydliad sy'n derbyn ymweliad yn cael cyfle i adolygu'r adroddiad er mwyn sicrhau ei fod yn gywir cyn iddo gael ei ystyried gan ein Pwyllgor Sicrhau Ansawdd a'i ddefnyddio gan Gyngor CCAUC yn rhan o'i Ymweliad Sefydliadol. Roedd canlyniadau'r adolygiadau'n cael eu bwydo i brosesau eraill CCAUC, gan gynnwys Cynlluniau Mynediad a Ffioedd a'r broses adolygu risg flynyddol.

Cwynion

3.2.4 Buom yn adolygu data ar gwynion a wnaed gan fyfyrwyr ynghylch sefydliadau yng Nghymru wrth Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (SDA) yn Natganiadau Blynyddol 2018 (a gyhoeddwyd ym mis Mai 2019 drwy ddefnyddio'r data diweddaraf a oedd ar gael). Roedd ein PSA yn fodlon â'r diweddariad. Nododd y Pwyllgor fod nifer y cwynion mewn rhai sefydliadau yn uwch, ac mae'n bosibl mai effaith streiciau staff yn 2017/18, a'r nifer uwch na'r disgwyl o gwynion gan fyfyrwyr PhD oedd wrth wraidd hyn. Yr oeddyn cydnabod pwysigrwydd parhau i fynd i'r afael â chwynion yn rhan o ymweliadau sicrwydd teirblynyddol.

Ansawdd sy'n debygol o ddatblygu i fod yn annigonol

3.2.5 Mae gan CCAUC gyfrifoldebau o dan Ddeddf 2015 mewn perthynas â darpariaeth sy'n 'debygol o ddatblygu i fod' yn annigonol. Trafodwyd y modd y byddem yn cyflawni'r swyddogaeth hon, yn dilyn ymarfer ymgynghori ar y gweithdrefnau drafft yn 2017/18, yn ein Gweithdrefnau ar gyfer asesu ansawdd addysg ym mis Mawrth 2019.

Diwygiadau i'r Fframwaith Asesu Ansawdd

3.2.6 Cyhoeddwyd y Fframwaith Asesu Ansawdd yn y cyfnod adrodd blaenorol er mwyn rhoi mecanweithiau i CCAUC ei sicrhau ei hun fod ansawdd addysg, neu gwrs addysg, a ddarperir gan, neu ar ran, sefydliadau a reoleiddir yn bodloni anghenion y rhai sy'n ei dderbyn. Datblygwyd y fframwaith i gyd-fynd â Deddf 2015 ac mae'n ystyried newidiadau rheoleiddiol.

3.2.7 Yn y cyfnod hwn, cafodd y Fframwaith Asesu Ansawdd ei ddiwygio, yn bennaf er mwyn rhoi cyfrif am newidiadau a gyflawnwyd yn rhannau eraill o'r DU. Cynghorodd y Pwyllgor Asesu Ansawdd ynghylch y newidiadau, cyn cynnal ymgynghoriad â'r sector. Yn ogystal â chyhoeddi blog i ofyn am safbwyntiau unrhyw randdeiliaid a chanddynt ddiddordeb, darparodd CCAUC y Fframwaith diwygiedig i'r grwpiau a'r sefydliadau canlynol, a rhoddodd ystyriaeth i'w safbwyntiau:

- Rhwydwaith Addysg Uwch mewn Addysg Bellach;
- Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru;
- Undebau Myfyrwyr;
- Prifysgolion Cymru;
- Grŵp Cynghori ar Ddysgu ac Addysgu Dirprwy Is-Gangellorion Prifysgolion Cymru; a
- Rhwydwaith Ansawdd Cymru

3.2.8 Dyma'r prif newidiadau a gafwyd:

- Integreiddio arferion craidd a chyffredin yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU, datganiadau nodweddion a datganiadau meincnodi pwnc, lle bo'n briodol, i'r gofynion sylfaenol fel elfennau Cymru yn unig;
- Diwygio ail ddyfarniad yr adolygiad sicrwydd ansawdd allanol i ganolbwyntio ar ofynion sylfaenol perthnasol yn hytrach na'r gyfres lawn ohonynt;
- Cynnwys datganiad ynghylch defnydd CCAUC o Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd fel dogfen gyfeiriol allweddol;
- Cyfeirio at Weithdrefnau CCACU ar gyfer asesu risg i ansawdd addysg, a lleihau cyfeiriadau at ansawdd sydd yn annigonol, neu'n debygol o fod yn annigonol ymhen amser;
- Diweddaru'r testun ynghylch safonau gradd i adlewyrchu cyhoeddi datganiad o fwriad y DU, a'r cytundeb gan sefydliadau Cymru yn dilyn hynny y byddent yn cyhoeddi datganiadau i gyfleu canlyniadau adolygiad mewnol o safonau gradd erbyn 2019/20;
- Diweddaru'r adran ar warchod enw da brand addysg uwch y DU yn rhyngwladol i roi cyfrif am ddatblygiadau yn y maes hwn, gan gynnwys diwygio'r testun i gadarnhau y bydd CCAUC yn cydweithio â'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd a'r sector i sicrhau y bydd goruchwyliaeth briodol ar ddarpariaeth drawswladol yn parhau;
- Diweddaru cyfeiriadau at yr Academi Addysg Uwch i gyfeirio at YmlaenAU.

Diwygio gofynion Adolygiadau Sicrhau Ansawdd Allanol

3.2.9 Cyhoeddwyd y gofynion adolygu sicrwydd ansawdd allanol yn wreiddiol ym mis Ebrill 2017. Roedd angen diwygio'r rhain yn sgil yn newidiadau i'r Fframwaith Asesu Ansawdd. Yn dilyn cyngor gan y Pwyllgor Asesu Ansawdd cynhaliom ymgynghoriad, ochr yn ochr ag adolygiad y Fframwaith.

3.2.10 Dyma'r prif newidiadau a gafwyd:

- Ystyried y newidiadau i'r llinell sylfaen yn y Fframwaith Asesu Ansawdd,
- Diwygio ail ddyfarniad yr adolygiad i ganolbwyntio ar ofynion sylfaenol perthnasol (yn hytrach na'r holl ofynion).

## 3.3 Canlyniadau gweithgareddau wrth gyflawni swyddogaethau

3.3.1 Yn yr adran hon nodir canlyniadau gweithgareddau a gynhaliwyd yn sgil cyflawni ein swyddogaethau ansawdd i asesu neu wneud trefniadau ar gyfer asesu ansawdd mewn sefydliadau a reoleiddir.

3.3.2 Cafodd un adolygiad o sefydliad a reoleiddir ei gynnal gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd. Roedd y canlyniad yn foddhaol. Yn ogystal â hynny, gwnaethom ofyn i un sefydliad gomisiynu adolygiad sicrhau ansawdd allanol rhannol ar gampws newydd yn ystod 2018/19. Roedd yr adolygiad hwn yn union yr un fath a'r adolygiad sicrwydd ansawdd allanol cylchol arferol a gomisiynir gan sefydliadau, er nad oedd ond yn canolbwyntio ar y campws newydd. Adroddir canlyniad yr adolygiad yn 2019/20.

3.3.3 Cynhaliwyd tri adolygiad teirblynyddol ym mis Hydref 2018, mis Ionawr 2019 a mis Mai 2019. Cafodd CCAUC sicrwydd o'r canlyniadau ar y cyfan. Gwnaeth CCAUC nifer o arsylwadau ac argymhellion yn sil yr ymweliadau hyn, gan gynnwys:

- Holi a fu methodolegau, gan gynnwys gweithredu cynlluniau gweithredu effeithiol, yn effeithiol er mwyn ymdrin â chanlyniadau arolygon myfyrwyr;
- Goruchwylio darpariaeth mewn lleoliadau eraill, ac ymgysylltiad Undeb y Myfyrwyr â'r ddarpariaeth honno;
- Effaith streiciau diwydiannol ar fyfyrwyr, a'r berthynas ag Undeb y Myfyrwyr;
- Effeithiolrwydd y siarter myfyrwyr a'r cytundeb cydberthynas;
- Yr heriau'n gysylltiedig a natur gymhleth strwythurau sefydliadau, o ran cyflawni ymagwedd gyfannol

3.3.4 Cychwynnodd CCAUC dri ymchwiliad lle'r oedd risg bosibl i ansawdd wedi'i nodi yn ystod 2018/19. Cynghorodd y PSA ynghylch yr achos cyntaf, a oedd yn ymwneud â phartner dilysu, a bu'n rhaid i CCAUC ymgysylltu ymhellach â'r sefydliad. Gofynnwyd am sicrwydd priodol gan y sefydliad drwy ohebiaeth a chyfarfodydd wyneb yn wyneb. Rhoddodd y sefydliad y sicrwydd hwnnw i CCAUC yn ddiweddarach, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y PSA. Cafodd Llywodraeth Cymru hefyd wybod am y canlyniad. Bydd y ddau ymchwiliad sy'n weddill yn cael eu cwblhau yn 2019/20, a'u hystyried gan y PSA fel bo'n briodol.

3.3.5 Yn 2018/19, cafodd CCAUC un gŵyn ynghylch ansawdd. Ni aeth y gŵyn ymhellach na cham cychwynnol y broses gwyno, gan nad oedd y gŵyn o fewn ein cylch gwaith ar gyfer ymchwiliad. Roedd hyn am nad oedd y dystiolaeth a ddarparwyd yn dangos unrhyw broblemau systematig ynghylch ansawdd.

## 3.4 Methu cydymffurfio â’r system reoleiddiol ac achosion o ymyrraeth

3.4.1 Nid oedd unrhyw achos o fethu cydymffurfio â’r system reoleiddiol fel y bo’n berthnasol i ansawdd ac, o ganlyniad, ni wnaethom arfer ein swyddogaethau ymyrraeth.

## Adran 4 – Materion Ariannol Sefydliadau a Reoleiddir

### 4.1 Cyflwyniad

4.1.1 Dywed Adran 27(1) Deddf 2015 ei bod yn ofynnol i CCAUC baratoi a chyhoeddi cod perthnasol i sefydlu a rheoli materion ariannol sefydliadau a reoleiddir. Dywed Adran 27(2) ‘Gall y Cod wneud darpariaeth ar gyfer y materion canlynol (ymhlith eraill):

a) yr amgylchiadau pan fo sefydliad a reoleiddir yn gwneud trafodiad mewn dosbarth a nodir yn y Cod gyda chaniatâd CCAUC yn unig,
b) trefniadau cyfrifyddu ac archwilio sefydliadau a reoleiddir, a
c) darparu gwybodaeth i CCAUC.’

4.1.2 Dywed Adran 27(4) Deddf 2015 ei bod yn ofynnol i gorff llywodraethu sefydliad a reoleiddir wneud y canlynol:

a) cydymffurfio ag unrhyw ofyniad a orfodir gan y Cod, ac
b) ystyried unrhyw gyfarwyddyd a geir yn y Cod.

4.1.3 Yn yr adran hon o'r adroddiad, disgrifir y modd y buom yn monitro cydymffurfiaeth â'r Cod yn 2018/19.

### 4.2 Cyflawni swyddogaethau yn 2018/19

<u>Monitro Cyllid</u>

4.2.1 Buom yn monitro cyllid, gan gynnwys adolygu datganiadau ariannol a rhagolygon ariannol manwl pob sefydliad. Yn ystod y cyfnod adrodd, dadansoddwyd rhagolygon ariannol ddiwedd haf 2018 a datganiadau ariannol ar ddechrau 2019. Yn ogystal â hynny, dadansoddwyd diweddariadau rhagolygon ariannol yng ngwanwyn 2019 fel rhan o broses ymgeisio Cynlluniau Ffioedd a Mynediad 2020/21. Bu CCAUC hefyd yn monitro cwynion a gafodd o dan ei broses gwynion ynghylch gweithdrefnau sefydliadau lle'r oedd posibilrwydd i hynny effeithio ar gydymffurfiaeth â'r Cod.

4.2.2 Buom yn adolygu lefelau benthyca sefydliadau yn erbyn trothwyon cytunedig, a lle'r oedd sefydliadau'n dymuno ymrwymo i fenthyca mwy na'r trothwyon hyn cynhaliom broses ffurfiol a oedd yn cynnwys craffu ar gyllid a phrosesau llywodraethu er mwyn penderfynu a oedd cynigion yn briodol.

<u>Adolygiadau Sicrwydd Sefydliadol</u>

4.2.3 Buom hefyd yn cyflawni gwaith adolygu sicrwydd sefydliadol yn gysylltiedig â phob sefydliad a reoleiddir yng Nghymru. Ffocws yr adolygiadau hyn oedd canfod tystiolaeth o gadernid trefniadau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu’r sefydliadau eu hunain. Buom yn chwilio am y dystiolaeth hon, yn benodol, drwy’r sicrwydd a’r farn a ddarparwyd gan archwilwyr mewnol ac allanol y sefydliadau eu hunain, ac adroddiadau eu Pwyllgorau Archwilio. Roedd trafodaethau â phersonél allweddol yn y sefydliadau’n rhan hanfodol o’n gwaith adolygu sicrwydd. Cawsom hefyd gwrdd ag archwilwyr mewnol y sefydliadau. Yn ystod y cyfnod adrodd, cynhaliodd swyddogion ddau ymweliad ffurfiol cynlluniedig i adolygu sicrwydd sefydliadol.

Adolygiadau Risg Sefydliadol

4.2.4 Drwy ein proses Adolygu Risg Sefydliadol (ARS), cynhaliom asesiadau risg ffurfiol ddwywaith y flwyddyn o sefydliadau a reoleiddir. Defnyddiwyd amrywiaeth o wybodaeth o'r ffurflenni data diweddaraf ac o ymgysylltiad y Cyngor a swyddogion â sefydliadau i asesu risg pob un yn erbyn chwe maes allweddol - Llywodraethu a Rheoli; Cyllid; Cyfeiriad Strategol; Trosglwyddo Gwybodaeth ac Ymchwil; Myfyrwyr ac Ansawdd; ac Ystadau. Cynhaliwyd asesiad cyffredinol ar gyfer barnu a oedd cysylltiad pob sefydliad â risg yn 'Isel', 'Cymedrol' neu 'Uchel'. Mae'r diffiniadau o'r categorïau risg hyn fel a ganlyn:

**Risg isel**: Nid yw'r sefydliad yn debygol o fethu cydymffurfio â'r Cod Rheoli Ariannol.

**Risg gymedrol**: Mae'r sefydliad wedi methu, neu gall fethu, cydymffurfio â'r Cod Rheoli Ariannol yn y tymor byr i ganolig, ond nid yw effaith hyn yn arwain at bryderon cynaliadwyedd yn ystod y cyfnod hwnnw.

**Risg uchel**: Mae'r sefydliad wedi methu, neu mae'n debygol o fethu, cydymffurfio â'r Cod Rheoli Ariannol yn y tymor byr i ganolig, ac mae effaith hyn yn arwain at bryderon cynaliadwyedd yn ystod y cyfnod hwnnw.

4.2.5 Cynhaliwyd ARS interim gennym yn hydref 2018, a bu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ystyried y canlyniadau ym mis Rhagfyr 2018 a'r Cyngor yn gwneud hynny ym mis Ionawr 2019. Cynhaliwyd ARS llawn yng ngwanwyn 2019, a bu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ystyried canlyniadau'r ARS llawn ym mis Mehefin 2019 a'r Cyngor yn gwneud hynny ym mis Gorffennaf 2019. Mae canlyniadau'r broses hon wedi'u nodi ym mharagraff 4.3.7 a'r camau gweithredu yn sgil hynny wedi'u nodi ym mharagraff 4.3.8.

4.2.6 Sefydlodd y Cyngor hefyd gyfres o ymweliadau sefydliadol ffurfiol lle'r oedd aelodau'r Cyngor a swyddogion yn cyfarfod â phob sefydliad unwaith bob tair blynedd o leiaf, gan roi cyfle ychwanegol i drafod materion strategol â llywodraethwyr ac uwch reolwyr. Ymwelwyd â phum sefydliad rheoledig yn 2018/19.

Y Cod Rheoli Ariannol

4.2.7 Mae'r Cod Rheoli Ariannol (y Cod) yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC adolygu'r Cod yn barhaus ac, os yw'n briodol, paratoi a chyhoeddi Cod diwygiedig. Adolygwyd y Cod yn 2018/19 ac ni nodwyd unrhyw ddiwygiadau.

## 4.3 Canlyniadau gweithgareddau wrth gyflawni swyddogaethau

4.3.1 Mae'r adran hon yn datgan canlyniadau ein monitro ar gydymffurfiaeth â'r Cod yn ystod y cyfnod adrodd yn ôl.

4.3.2 Drwy fonitro sefyllfa ariannol sefydliadau addysg uwch yn ystod y cyfnod adrodd, gwelwyd bod sefyllfa gyfunol sefydliadau addysg uwch Cymru wedi gwella o ddiffyg o £16.8 miliwn yn 2016/17 i ddiffyg o £4.3 miliwn yn 2017/18. I raddau helaeth, roedd y gwelliant hwn o gymharu â 2016/17 yn deillio o'r canlynol: cynnydd yn yr holl ffynonellau incwm sylweddol ar wahân i nawdd, a oedd yn adlewyrchu'r gostyngiad yn incwm grant CCAUC; dychwelyd i daliadau dibrisiant

safonol yn dilyn taliadau amhariad sylweddol yn 2016/17. Cafwyd y cynnydd hwn er gwaethaf y cynnydd yng nghostau staff yn sgil codi cyflogau a chostau nawdd cymdeithasol ac, i raddau llai, cyfraniadau pensiwn cyflogwr; a chostau gweithredu uwch.

4.3.3 Ar lefel sefydliadol, roedd y canlyniadau’n amrywio rhwng diffyg o 10.3% a gwarged o 11.8%. Roedd hyn yn dangos yr amrywio sylweddol a gafwyd ym mherfformiadau ariannol sefydliadau unigol ar draws y sector. Adroddodd tri sefydliad ddiffyg yn 2016/18, o gymharu â phedwar sefydliad yn 2016/17. Dim ond un sefydliad a adroddodd warged o 5% neu fwy o gyfanswm incwm.

4.3.4 Cynyddodd y llif arian o weithgareddau gweithredu ryw ychydig, o 7.0 y cant yn 2016/17 i 7.4 y cant o gyfanswm yr incwm yn 2017/18. Cynyddodd y cronfeydd digyfyngiad o £957 miliwn (64.3 y cant o’r incwm) i £1,061 miliwn (62.1 y cant o gyfanswm yr incwm); ar ben hynny, roedd cronfeydd digyfyngiad yn cynnwys cronfeydd ailbrisio £486 miliwn (£498 miliwn yn 2016/17), ac felly nid adlewyrchiad o gynnydd sylfaenol mewn cronfeydd yw'r rhain yn unig. Cynyddodd cyfanswm yr asedau net o £1,572 miliwn i £1,652 miliwn.

4.3.5 Cynyddodd y benthyciadau allanol hirdymor, a’r rhwymedigaethau o dan brydlesau cyllid a gostyngiadau gwasanaeth, o 49.0% o’r incwm ar 31 Gorffennaf 2017 i 49.7% ar 31 Gorffennaf 2018. Cafwyd cynnydd hefyd o £75 miliwn mewn credydwyr byrdymor yn ystod y flwyddyn, a oedd yn ymwneud yn bennaf â mater datgelu yn gysylltiedig ag un sefydliad yr oedd yn rhaid iddo ddangos yr holl fenthyciadau hirdymor fel rhai byrdymor; cynnydd mewn grantiau cyfalaf gohiriedig a chroniadau cyffredinol ac incwm a ohiriwyd.

4.3.6 Cynhaliom adolygiad o geisiadau benthyca gan dri sefydliad yn 2018/19. Roedd un ohonynt yn dal i fod ar y gweill ar ddiwedd y cyfnod hwn, ac fe'i tynnwyd yn ôl yn ddiweddarach. Cafodd dau ymrwymiad benthyca arall eu cymeradwyo.

4.3.7 Dyma ganlyniadau’r asesiadau ARS a gynhaliwyd gan CCAUC yn ystod y cyfnod adrodd yn ôl:

- aseswyd dau sefydliad fel rhai â chyswllt Uchel â risg yn gyffredinol,
- aseswyd pum sefydliad fel rhai â chyswllt Cymedrol â risg yn gyffredinol, ac
- aseswyd tri sefydliad fel rhai â chyswllt Isel â risg yn gyffredinol.

4.3.8 O ganlyniad i’n hasesiadau risg, aethom ati i gynyddu lefelau’r ymgysylltu â Phenaethiaid ac Uwch Dimau Rheoli’r sefydliadau hynny a nodwyd fel rhai â chyswllt ‘Cymedrol’ ac ‘Uchel’ â risg, er mwyn cael sicrwydd bod y materion oedd yn peri pryder i ni’n cael sylw brys a phriodol. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu rheolaidd â Chyfarwyddwyr Cyllid ar gyfer y sefydliadau hynny a nodwyd fel y rhai risg Uchel er mwyn deall a monitro’r cynlluniau i wella sefydlogrwydd ariannol.

4.3.9 Yn 2018/19, cafodd CCAUC 3 cwyn ynghylch materion honedig a allai fod yn achosion o fynd yn groes i'r Cod. Cynhaliodd CCAUC drafodaeth anffurfiol â'r sefydliadau perthnasol yn gysylltiedig â’r materion honedig hyn. O ganlyniad i’r cyswllt hwn, sicrhawyd datrysiad boddhaol ym mhob achos ac nid oedd angen unrhyw weithredu pellach.

### 4.4 Methu cydymffurfio â'r system reoleiddiol ac achosion o ymyrraeth

4.4.1 Cyflwynodd dau sefydliad eu datganiadau ariannol yn hwyr. Cawsom hysbysiadau ffurfiol o dorri'r Cod gan y ddau sefydliad. Buom yn ymgysylltu â hwy'n helaeth i sicrhau datrysiad priodol, ac nid oedd angen inni gymryd unrhyw gamau pellach.

4.4.2 Adroddodd un sefydliad achos o ddwyn asedau. Rydym wedi cysylltu â'r sefydliad, a gynhaliodd ymchwiliad trwyadl, ac sydd bellach wedi sefydlu gweithdrefnau rheoli diwygiedig er mwyn atal hyn rhag digwydd eto.

4.4.3 Cyflawnwyd ymyrraeth anffurfiol mewn un sefydliad o ganlyniad i achos difrifol o dorri'r Cod Rheoli Ariannol (CRhA). Roedd a wnelo hyn â diffygion yn amgylchedd rheolaeth mewnol y sefydliad a nodwyd yn ystod 2018/19. Mae CCAUC wedi adolygu ystod o dystiolaeth a chysylltu â'r sefydliad i ddatblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd. Mae'r cynllun gweithredu hwn wedi cael ei gymeradwyo gan gorff llywodraethu'r sefydliad ac mae CCAUC wedi'i gyflwyno'n ffurfiol i'r sefydliad. Mae'r cynllun gweithredu yn cael ei fonitro'n agos gan swyddogion CCAUC er mwyn sicrhau ymdriniaeth briodol a'r materion, a bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf yn eu cylch.

4.4.4 Nid oedd unrhyw achosion o fod angen ymyrraeth ffurfiol mewn perthynas â methu cydymffurfio, neu debygolrwydd o fethu cydymffurfio, â'r Cod Rheoli Ariannol yn ystod y cyfnod adrodd yn ôl.

## Adran 5 – Datganiad Ymyrraeth

5.1 Mae Datganiad Ymyrraeth llawn wedi'i sefydlu. Mae'r Datganiad yn amlinellu pwerau ymyrraeth CCAUC o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.

5.2 Mae Pwyllgor Rheoleiddio CCAUC yn parhau i adolygu'r Datganiad Ymyrraeth, ac fe gytunwyd nad oes angen unrhyw newidiadau ar hyn o bryd.

## Adran 6 – Datganiad Sicrwydd

6.1 Mae'r adran hon yn darparu datganiad sicrwydd blynyddol gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC neu'r Cyngor) i Lywodraeth Cymru ar gydymffurfiaeth y sefydliadau a reoleiddir gyda'r system reoleiddiol sydd wedi'i datgan yn Neddf 2015 ac mae'n tynnu sylw at unrhyw feysydd o bryder neu risg.

6.2 Yn ôl asesiad y Cyngor, bu cydymffurfiaeth y sefydliadau â'r gofynion rheoleiddiol a orfodir gan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, ar draws y sector a reoleiddir, yn foddhaol ar y cyfan. Os tynnwyd sylw at broblemau neilltuol yn ystod y cyfnod adrodd, mae'r Cyngor wedi mynd ar drywydd y problemau hynny'n drwyadl gyda'r sefydliadau dan sylw, fel y nodwyd uchod.